**Ymateb ysgrifenedig gan Lywodraeth Cymru i adroddiad y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon, o dan y teitl *Ymchwiliad i effaith COVID-19, a'r modd y mae'n cael ei reoli, ar iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru: Adroddiad 3 – Effaith ar y sector gofal cymdeithasol a gofalwyr di-dâl***

**Argymhelliad 1. Rhaid i Lywodraeth Cymru, fel blaenoriaeth frys, sicrhau bod cartrefi gofal yn cael mynediad at yr holl offer a chyfleusterau angenrheidiol (e.e. unedau bach a phrofion llif unffordd i ymwelwyr) er mwyn galluogi ailddechrau ymweliadau.**

Ymateb Llywodraeth Cymru:

**Derbyn**

Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i weithio gyda rhanddeiliaid yn y sector cartrefi gofal i sicrhau bod cartrefi'n cael cymorth i ailddechrau ymweliadau. Mae hyn wedi cynnwys datblygu canllawiau ar ymweliadau er mwyn helpu darparwyr cartrefi gofal i gynllunio ar gyfer ymweliadau sy'n seiliedig ar asesiadau risg, wedi'u hategu gan weminarau a fynychwyd gan reolwyr cartrefi gofal. Yn y gweminarau hyn, cyflwynodd cydweithwyr Iechyd Cyhoeddus Cymru wybodaeth fanwl am y ffactorau sydd i'w hystyried wrth gwblhau asesiadau risg. Hefyd, mae Llywodraeth Cymru yn darparu cymorth ariannol uniongyrchol i gynorthwyo darparwyr gyda chostau trefnu ymweliadau.

Ar 23 Tachwedd, cyhoeddodd y Dirprwy Weinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol gynllun peilot i ddarparu unedau bach dros dro ar gyfer ymwelwyr â chartrefi gofal er mwyn helpu i sicrhau bod ymweliadau'n ddiogel o ran Covid-19. Fel rhan o'r cynllun peilot hwn mae Llywodraeth Cymru yn darparu cyfanswm o 100 o unedau bach dros dro ar gyfer ymwelwyr â chartrefi gofal oedolion yn rhad ac am ddim am gyfnod o hyd at 26 wythnos. Maent wedi'u gosod mewn cartrefi gofal ledled Cymru. Roedd y cynllun peilot yn cynnwys cyllid gwerth £1 miliwn i ad-dalu darparwyr sydd wedi dewis llogi eu hunedau bach eu hunain ar gyfer ymwelwyr. Daeth y cynllun hwn i ben ar 26 Chwefror a dyrannwyd yr holl gyllid. Ariannwyd cyfanswm o 54 o unedau bach ar gyfer ymwelwyr ar sail llogi o dan y cynllun hwn. Bydd y cynllun peilot yn cael ei werthuso.

Gan fod mwy o ymweliadau rheolaidd wedi gallu ailddechrau, yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru, mae darparwyr yn derbyn cymorth i dalu'r costau sy'n gysylltiedig â threfnu ymweliadau sy'n ddiogel o ran Covid-19. Roedd hyn yn cynnwys cyfraniad tuag at gostau amser staff i hwyluso ymweliadau a phrofi ymwelwyr, yn ogystal â'r costau i ddarparwyr o greu mannau diogel i brofi ymwelwyr.

Roedd Llywodraeth Cymru wedi sicrhau bod £3,045,000 ar gael i gartrefi gofal trwy'r gronfa caledi at y diben hwn ym mis Chwefror a mis Mawrth, gan gynnwys taliad cyfrannol tuag at y costau staff ychwanegol sy'n gysylltiedig â phrofi ymwelwyr trwy ddefnyddio dyfais llif unffordd, a chyfraniad o £600 tuag at gost addasiadau ffisegol er mwyn helpu i greu mannau profi diogel. Mae'r cymorth ariannol hwn wedi'i ymestyn bellach. Mae cyfanswm o £6,824,572 wedi'i ddarparu ar gyfer cartrefi gofal

a rhannau o'r sector gofal cymdeithasol ehangach ar gyfer y cyfnod 13 wythnos rhwng 1 Ebrill a 30 Mehefin 2021.

**Goblygiadau ariannol**: Dim - Mae modd defnyddio cyllidebau grŵp a chyllidebau Covid sy'n bodoli eisoes i ariannu'r rhaglen hon.

**Argymhelliad 2. Rhaid i Lywodraeth Cymru, fel blaenoriaeth frys, gryfhau ei chanllawiau i ddarparwyr cartrefi gofal i sicrhau mai caniatáu ymweliadau diogel fydd y sefyllfa ddiofyn.**

Ymateb Llywodraeth Cymru:

**Derbyn**

Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i weithio'n agos gyda rhanddeiliaid trwy grŵp rhanddeiliaid ymweliadau â chartrefi gofal Arolygiaeth Gofal Cymru ac yn parhau i adolygu ei chanllawiau ar ymweld â chartrefi gofal. Mae fersiwn gyfredol y canllawiau (fersiwn 6, a gyhoeddwyd ar 23 Mawrth) yn hwyluso ymweliadau dan do rheolaidd gan ddau ymwelydd dynodedig, yn ogystal ag ymwelwyr ychwanegol ar gyfer ymweliad awyr agored, neu ymweliad mewn uned fach ar gyfer ymwelwyr neu fan caeedig tebyg.

Mae unrhyw ymweliad â chartref gofal ar hyn o bryd yn peri lefel o risg o ganlyniad i ymwelwyr yn mynd i mewn i gartrefi gofal lle mae lefel o drosglwyddiad yn y gymuned o hyd. Fodd bynnag, mae'r canllawiau'n cynnwys casgliad o fesurau lliniaru sydd ar gael i gartrefi er mwyn lleihau'r risg hon (profion ar gyfer ymweliadau dan do, asesiadau risg ac ati) ac mae'n mynegi'n glir 'rydym yn disgwyl i ddarparwyr hwyluso cynnal ymweliadau gan reoli'r risg lle bynnag y bo modd, ac fe'u hanogir i wneud hynny'.

Byddwn yn parhau i bwysleisio ein disgwyliad bod ymweliadau'n cael eu hwyluso fel rhan o'n proses ymgysylltu a chyfathrebu reolaidd â'r sector. Cyn cyhoeddi'r canllawiau diwygiedig ym mis Mawrth yn caniatáu mwy o ymweliadau rheolaidd dan do, cyfarfu'r Dirprwy Weinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol â rhanddeiliaid allweddol gan gynnwys Fforwm Gofal Cymru, Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, y Comisiynydd Pobl Hŷn, Swyddogion Iechyd yr Amgylchedd a chynrychiolwyr Timau Rheoli Digwyddiadau, gan atgyfnerthu pwysigrwydd neges gyson gan bob partner er mwyn cefnogi a galluogi ymweliadau â chartrefi gofal. Dilynwyd hyn gan gyfarfod arall ar 30 Mawrth gyda'r un grŵp er mwyn asesu'r dull o gyflwyno ymweliadau dan do.

Mewn ymateb i faterion a godwyd wrth ymgysylltu â'r sector, ysgrifennodd Albert Heaney, y Dirprwy Gyfarwyddwr Cyffredinol a Dr Frank Atherton, y Prif Swyddog Meddygol, at ddarparwyr cartrefi gofal ar 1 Ebrill yn egluro sawl mater yn fanylach. Roedd hyn yn cynnwys atgyfnerthu cyngor Iechyd Cyhoeddus Cymru sy'n nodi nad oes unrhyw reswm iechyd y cyhoedd cadarn dros aros nes bod pob preswylydd (a/neu aelod o staff) wedi cwblhau'r ddau ddos o'r brechlyn cyn ailddechrau ymweliadau dan do. I gloi, pwysleisiodd fod disgwyl i'r rhan fwyaf o gartrefi gofal

ailddechrau ymweliadau dan do rheolaidd ar sail asesiad risg, oni bai bod amgylchiadau eithriadol yn atal hyn rhag digwydd.

Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i ymgysylltu'n agos â'r sector i hyrwyddo ymweliadau ar sail asesiad risg, a bydd yn parhau i wneud hynny wrth i'r sefyllfa esblygu.

**Goblygiadau ariannol**: Ddim yn berthnasol

**Argymhelliad 3. Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda Fforwm Gofal Cymru i gael a chynnal darlun clir o'r sefyllfa ledled Cymru o ran ymweliadau â chartrefi gofal yn barhaus, ac i hwyluso'r broses o rannu arfer da rhwng cartrefi gofal gyda'r bwriad o gynyddu nifer y cartrefi sy'n cefnogi ymweliadau diogel.**

Ymateb Llywodraeth Cymru:

**Derbyn**

Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i weithio gyda phartneriaid allweddol, gan gynnwys Fforwm Gofal Cymru, Arolygiaeth Gofal Cymru a swyddfa'r Comisiynydd Pobl Hŷn, i fonitro'r sefyllfa o ran ymweld â chartrefi gofal ledled Cymru. Mae'r Dirprwy Weinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn cyfarfod â chynrychiolwyr Fforwm Gofal Cymru yn rheolaidd, ac maent yn aelodau o Grŵp Cynllunio ac Ymateb y Gwasanaethau Cymdeithasol dan gadeiryddiaeth y Dirprwy Gyfarwyddwr Cyffredinol dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, Albert Heaney.

Hefyd, un o'r dulliau allweddol o fonitro'r cynnydd sy'n cael ei wneud ym maes ymweliadau yw cyfarfodydd rheolaidd grŵp cartrefi gofal preswyl Llywodraeth Cymru a fynychir gan Iechyd Cyhoeddus Cymru, Arolygiaeth Gofal Cymru a chydweithwyr Swyddogion Iechyd yr Amgylchedd Awdurdodau Lleol a Byrddau Iechyd. Yn ystod y cyfarfodydd hyn, mae adborth rheolaidd 'ar lawr gwlad' yn cael ei ddarparu gan gydweithwyr Swyddogion Iechyd yr Amgylchedd, gan gynnwys adborth ar ymweliadau. Hefyd, mae AGC ac Iechyd Cyhoeddus Cymru yn cynnig trosolwg strategol o'r sefyllfa o safbwynt eu sefydliadau. Hefyd, mae Fforwm Gofal Cymru yn aelod o'r grŵp cydweithredu ar gartrefi gofal sy'n ystyried y cynllun gweithredu ar gyfer cartrefi gofal; dyma ddull arall o glywed safbwyntiau'r sector.

Hefyd, mae AGC wedi atgyfnerthu safbwynt Llywodraeth Cymru ar ymweliadau trwy ei datganiad ar 10 Mawrth: https://arolygiaethgofal.cymru/sites/default/files/2021-03/210312-Datganiad-ymweld-cartrefi-gofal-cy_1.pdf

Mae'r datganiad hwn yn nodi pwysigrwydd ymweliadau, gan rybuddio yn erbyn gwahardd ymweliadau'n gyfan gwbl (lle nad oes achosion o Covid-19). Hefyd, mae'n nodi pwysigrwydd hwyluso ymweliadau rheolaidd yn unol â chanllawiau cenedlaethol (oni bai bod y cyngor yn nodi nad yw'n ddiogel gwneud hynny). Nodir y materion hyn yn benodol fel ffactorau a allai sbarduno arolygiad.

**Goblygiadau ariannol**: Ddim yn berthnasol

**Argymhelliad 4. Dylai Llywodraeth Cymru ysgrifennu at bob bwrdd iechyd i ail-bwysleisio eu cyfrifoldebau o ran rhyddhau cleifion o'r ysbyty a'r gweithdrefnau y mae'n rhaid eu dilyn pe bai rhyddhau anniogel yn digwydd.**

Ymateb Llywodraeth Cymru:

**Derbyn**

Yn unol â *Cymru Iachach*, sy'n ymwneud â sicrhau bod gennym system iechyd a gofal cymdeithasol holistaidd sy'n gosod cleifion yn y lleoliadau priodol yn unol â'u hanghenion gofal, gan geisio osgoi rhwystrau a ffiniau, mae'r angen i sicrhau nad yw pobl sy'n agored i niwed yn aros mewn gwelyau ysbyty pan nad oes angen ymyriadau meddygol arnynt wedi bod yn ganolbwynt cyson yng nghanllawiau Llywodraeth Cymru ar ryddhau cleifion. Rydym wedi bod yn ymwybodol iawn y bydd y pandemig wedi cynyddu risgiau sy'n gysylltiedig â heintiau a geir mewn ysbytai a dirywiad mewn iechyd meddwl a llesiant.

Roedd pwysigrwydd trosglwyddo pobl yn ddiogel o welyau ysbyty i leoliadau gofal mwy priodol yn ganolog i COVID-19: canllawiau gwasanaeth rhyddhau o'r ysbyty (Cymru), a gyhoeddwyd ym mis Ebrill y llynedd. Fe aethom ati i ddiweddaru'r canllawiau ym mis Rhagfyr i adlewyrchu cyngor Grŵp Cynghori Technegol Llywodraeth Cymru ar heintusrwydd. Y cyngor yw ei bod yn ddiogel rhyddhau pobl sydd wedi cael Covid-19 i gartref gofal neu leoliad gofal arall pan nad ydynt yn heintus bellach (h.y. prawf RT-PCR cadarnhaol negyddol neu isel (gyda rhif Trothwy Cylch (Ct) o 35 neu uwch) a meini prawf penodol eraill yn ymwneud â chyfnod amser a diwedd symptomau). Y canllawiau o hyd yw y dylai cleifion sy'n heintus, ond nad oes angen gofal acíwt arnynt bellach, symud i gyfleuster cam-i-lawr o safbwynt bod yn heintus â Covid. Ar gyfer cleifion lle nad oes tystiolaeth eu bod wedi dal Covid-19 yn yr ysbyty, mae'r gofynion blaenorol ar gyfer prawf negyddol cyn eu rhyddhau a chyfnod o hunanynysu'n parhau i fod ar waith, er mwyn mynd i'r afael â'r perygl o ddal haint ar ôl cynnal y prawf.

Fe wnaethom ysgrifennu at bob partner ym mis Hydref i bwysleisio'r angen i ryddhau cleifion yn ddiogel, yn unol â'r canllawiau, ac fe wnaethom ysgrifennu hefyd mewn perthynas â'r diweddariad ym mis Rhagfyr. Yn fwy diweddar, cynhaliwyd arolwg gennym i fesur effaith y canllawiau. Mae cydymffurfiaeth yn dda yn gyffredinol, a byddwn yn parhau i weithio'n agos gyda phartneriaid i helpu i roi'r canllawiau ar waith, datrys dehongliadau gwahanol sydd wedi dod i'r amlwg a chefnogi dulliau cyfathrebu effeithiol rhwng partneriaid. Rydym yn annog darparwyr i roi gwybod am unrhyw achosion tybiedig o dorri canllawiau'n ymwneud â dychwelyd preswylwyr i'w cartrefi gofal, naill ai'n uniongyrchol i ni, neu drwy'r Fforymau Gofal.

Mae'n werth nodi'r adroddiad a luniwyd gan Iechyd Cyhoeddus Cymru ac Ysgol Feddygaeth Prifysgol Abertawe: *Risk factors for outbreaks of COVID-19 in care homes following hospital discharge: A national cohort analysis*. Dangosodd y dadansoddiad hwn fod llawer mwy o berygl o achosion gydol yr epidemig mewn cartrefi gofal mawr, ac ar ôl addasu ar gyfer maint cartrefi gofal, nad oedd rhyddhau

claf o'r ysbyty yn gysylltiedig â chynnydd sylweddol mewn risg. Amlygodd yr adroddiad ffynonellau achosion eraill, gan gynnwys y risgiau i staff a'r risgiau yn deillio o staff, a'r gorgyffwrdd â throsglwyddiad arall yn y gymuned. Byddwn yn parhau i gefnogi profion staff cartrefi gofal yn briodol a darparu cyfarpar diogelu personol ar gyfer staff gofal cymdeithasol (gweler hefyd yr ymatebion i Argymhellion 5 a 6) er mwyn hyrwyddo diogelwch amgylchedd cartrefi gofal.

**Goblygiadau ariannol**: Ddim yn berthnasol

**Argymhelliad 5. Dylai Llywodraeth Cymru fonitro'r amseroedd prosesu i gael canlyniadau profion ar gyfer staff cartrefi gofal a phreswylwyr er mwyn sicrhau bod canlyniadau'n cael eu dychwelyd cyn gynted â phosibl. Yn ddelfrydol, dylai hyn fod o fewn 24 awr ar ôl cynnal y prawf, ac yn sicr ni ddylai fod yn hwyrach na 48 awr.**

Ymateb Llywodraeth Cymru:

**Derbyn mewn egwyddor**

Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i fonitro amseroedd prosesu ym mhob sianel o labordai Goleudy a GIG Cymru. Mae hyn yn cynnwys gwiriadau dyddiol, adroddiadau wythnosol ar y sefyllfa a diweddariadau i'r Bwrdd Rhaglen Profi, Olrhain, Diogelu. Rydym wedi gweld y perfformiad yn gwella'n sylweddol. Byddwn yn parhau i asesu'r system gyda'r Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol ac Iechyd Cyhoeddus Cymru, a byddwn yn gwneud y gwelliannau gofynnol i sicrhau bod perfformiad yn cael ei gynnal a'i wella.

Mae ymgysylltu diweddar â'r sector wedi dangos bod cartrefi gofal yn fodlon â'r amseroedd prosesu gan y system Goleudy. Os oes oedi, byddwn yn parhau i ymchwilio i achosion unigol, er bod y problemau hyn yn brin bellach. Gall nifer o ffactorau fod yn gyfrifol am oedi posibl, gan gynnwys gweinyddu'r broses brofi yn effeithiol yn y cartref gofal cyn anfon y prawf i'r labordy, oedi gan gludwyr ac oedi i'r gwaith prosesu yn y labordy.

**Goblygiadau ariannol**: Ddim yn berthnasol

**Argymhelliad 6. Rhaid i Lywodraeth Cymru barhau i gynnal cyflenwadau digonol a chynaliadwy o gyfarpar diogelu personol sy’n bodloni’r safonau ansawdd a argymhellir, monitro ei effeithiolrwydd mewn perthynas â’r amrywiolion newydd, a chyfathrebu’n effeithiol â’r sector gofal cymdeithasol i roi sicrwydd bod y cyfarpar diogelu personol sydd ar gael yn darparu amddiffyniad priodol.**

Ymateb Llywodraeth Cymru:

**Derbyn**

Mae Llywodraeth Cymru yn cadw cyflenwad Ffliw Pandemig, yn unol â darpariaethau Strategaeth Parodrwydd Pandemig Ffliw'r DU 2011, sy'n nodi'r angen i bedair gwlad y DU gadw cyflenwadau o gyffuriau gwrthfeirysol, gwrthfiotig, deunyddiau traul a chyfarpar diogelu personol ar gyfer staff iechyd a gofal cymdeithasol rheng flaen. Ers dechrau'r pandemig, rydym wedi sicrhau bod y cyflenwadau hyn ar gael i'r sector gofal cymdeithasol cyn gynted â phosibl. Fodd bynnag, cyflogwyr sy'n gyfrifol yn statudol am gyflenwi Cyfarpar Diogelu Personol i staff (y cyflogwyr hyn ym maes gofal cymdeithasol yw awdurdodau lleol, darparwyr annibynnol a'r trydydd sector yn bennaf). Felly, mae gan y darparwr gofal gyfrifoldeb cyfreithiol i sicrhau bod cyfarpar diogelu personol addas ar gael i'w staff a'u bod yn gallu cael gafael ar y cyfarpar hwn yn ôl yr angen.

Er mwyn cynorthwyo cyflogwyr i gyflawni eu cyfrifoldeb statudol i gyflenwi Cyfarpar Diogelu Personol i staff ac amddiffyn pobl yn eu lleoliadau, a mynd i'r afael ag anawsterau cyflenwi o fewn y sector, penderfynodd Llywodraeth Cymru y byddai'n ymgymryd â rôl ychwanegol i gaffael a helpu i ddosbarthu cyfarpar diogelu personol trwy Bartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru, Canolfannau Cyfarpar ar y Cyd ac Awdurdodau Lleol. Yn y cyd-destun hwn, mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i ddarparu’r cyfarpar diogelu personol a argymhellir i ofal cymdeithasol, yn rhad ac am ddim, gydol y pandemig. Rydym yn parhau i weithio gydag awdurdodau lleol a Phartneriaeth Cydwasanaethau'r GIG i gyflwyno cynlluniau caffael a dosbarthu priodol a fydd yn sicrhau bod anghenion gofal cymdeithasol yn cael eu diwallu.

Mae arbenigwyr iechyd y cyhoedd wedi datblygu canllawiau ar y cyfarpar diogelu personol sydd angen ei ddefnyddio ym maes gofal cymdeithasol, ac adolygir y canllawiau hyn yn rheolaidd wrth i wybodaeth am amrywiolion newydd ddod i'r amlwg. Os yw'r canllawiau'n newid o ganlyniad i wybodaeth newydd, bydd ein cynlluniau ar gyfer caffael a dosbarthu’n cael eu diwygio yn unol â hynny.

**Goblygiadau ariannol**: Dim - Mae modd defnyddio cyllidebau sy'n bodoli eisoes i ariannu'r rhaglen hon.

**Argymhelliad 7. Dylai Llywodraeth Cymru nodi sut y bydd y gwaith sy'n cael ei wneud gan Gofal Cymdeithasol Cymru i broffesiynoli'r gweithlu gofal cymdeithasol yn sicrhau parch cydradd â'r gweithlu gofal iechyd, a sefydlu llwybrau gyrfa clir ar gyfer gweithwyr gofal cymdeithasol sy'n cael tâl priodol.**

Ymateb Llywodraeth Cymru:

**Derbyn**

Mae "Cymru Iachach" yn cydnabod yr angen am barch cydradd rhwng gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol. Mae parch cydradd yn gofyn am gymorth ar gyfer hyfforddiant, datblygiad a'r gwasanaethau sydd ar gael i'r gweithlu, cymorth iechyd a llesiant a gwella amodau gwaith.

Y llynedd, lansiwyd Strategaeth Gweithlu ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol gan Gofal Cymdeithasol Cymru ac Addysg a Gwella Iechyd Cymru. Mae gan y strategaeth hon saith thema lefel uchel sy'n cwmpasu modelau gweithio di-dor, recriwtio a chadw, sgiliau, cyflenwad y gweithlu a siâp ac addysg. Mae'r strategaeth yn nodi uchelgais ar y cyd ar gyfer gweithlu iechyd a gofal cymdeithasol sy'n frwdfrydig, wedi ymgysylltu ac yn cael ei werthfawrogi, ac sydd â'r gallu, y cymhwysedd a'r hyder i ddiwallu anghenion pobl Cymru. Bydd cynlluniau cyflawni o dan y saith thema lefel uchel yn cynorthwyo cynnydd yn erbyn yr uchelgais hon.

Un o elfennau allweddol proses broffesiynoli gweithwyr gofal cymdeithasol yw'r gofyniad i gofrestru gyda Gofal Cymdeithasol Cymru. Mae cofrestru'n sicrhau mwy o gysondeb o safbwynt lefel y cymhwyster sydd ei angen i fod yn weithiwr gofal cymdeithasol, mae'n galluogi gweithwyr i ddangos tystiolaeth well o'u sgiliau, mae'n nodi disgwyliadau mwy eglur ar gyfer gweithwyr a chyflogwyr trwy godau ymarfer cenedlaethol, ac mae'n helpu i ddarparu mwy o sicrwydd i'r cyhoedd o ran ansawdd y gofal. Mae cofrestru'n golygu bod modd casglu data gwell er mwyn helpu i ddatblygu polisi yn ymwneud â phroffesiynoli a pharch cydradd yn y dyfodol. Hefyd, mae'n gwella prosesau cyfathrebu â'r gweithlu gofal cymdeithasol ac yn cymryd cam sylweddol tuag at hyrwyddo mwy o ymdeimlad o hunaniaeth fel rhan o broffesiwn gofal cymdeithasol ehangach.

Colofn arall mewn perthynas â pharch cydradd yw telerau ac amodau'r gweithlu. Sefydlwyd Fforwm Gwaith Teg Gofal Cymdeithasol mewn partneriaeth gymdeithasol er mwyn dwyn ynghyd y llywodraeth, cyflogwyr a'r undebau i ddiffinio ystyr gwaith teg a sut i'w gymhwyso i weithwyr gofal cymdeithasol yng Nghymru. Mae Gofal Cymdeithasol Cymru yn aelod o'r Fforwm hwn. Mae datganiad sefyllfa'r Fforwm wedi'i gyhoeddi yn https://llyw.cymru/fforwm-gwaith-teg-gofal-cymdeithasol/datganiad-sefyllfa ac mae'n darparu gweledigaeth glir o flaenoriaethau'r Fforwm a sut y gellid datblygu'r gwaith hwn. Mae hyn yn cynnwys canolbwyntio'n benodol ar lwybrau datblygu gyrfa a gwobr deg.

Yn ei blwyddyn gyntaf, manteisiodd ymgyrch Gofalwn.Cymru dan arweiniad Gofal Cymdeithasol ar sawl platfform - trwy wasanaethau newyddion, ar-lein a'r cyfryngau cymdeithasol – ac mae dros 100,000 o bobl wedi gwylio straeon fideo'r ymgyrch. Arweiniodd hyn at dros 35,000 o ymgysylltiadau uniongyrchol rhwng y sector a phobl sydd â diddordeb mewn gweithio yn y sector. Mae pob un o'r saith partneriaeth

ranbarthol wedi mabwysiadu'r ymgyrch, ac mae'r deunyddiau'n cael eu defnyddio i hyrwyddo rolau mewn gofal cymdeithasol ledled Cymru. Mae Gofal Cymdeithasol Cymru yn parhau i gefnogi'r gwaith o ddarparu gweithlu gofal cymdeithasol cynaliadwy trwy ddenu, recriwtio a chadw staff, a thrwy sicrhau llesiant y gweithlu gan gynnwys ymgyrch Gofalwn.Cymru.

Mae Gofal Cymdeithasol Cymru wedi darparu pecyn cymorth llesiant ar gyfer gweithwyr gofal cymdeithasol, sy'n cynnwys mynediad at wasanaethau iechyd meddwl gan gynnwys Cynllun Cymorth i Weithwyr. Mae Gofal Cymdeithasol Cymru yn parhau i ddatblygu'r cymorth hwn.

**Goblygiadau ariannol:** Mae modd defnyddio cyllidebau sy'n bodoli eisoes i ariannu'r gwaith hwn.

**Argymhelliad 8. Rhaid i Lywodraeth Cymru, fel mater o flaenoriaeth, weithio gyda'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol a Chomisiynydd Pobl Hŷn Cymru i sicrhau bod hawliau dynol pobl hŷn yn cael eu diogelu a'u cynnal. Rydym hefyd yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn ysgrifennu at bwyllgor y Chweched Senedd sy'n gyfrifol am bobl hŷn ar ddechrau'r Chweched Senedd i egluro'r hyn sydd wedi cael ei wneud i ddatrys y pryderon a godwyd gan y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol a'r Comisiynydd Pobl Hŷn.**

Ymateb Llywodraeth Cymru:

**Derbyn**

Gydol y pandemig, mae Llywodraeth Cymru wedi gweithio'n agos gyda'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol a'r Comisiynydd Pobl Hŷn i ddeall eu pryderon yn ymwneud â hawliau pobl hŷn, gan roi camau priodol ar waith. Rydym wedi cyflwyno tri ymateb ysgrifenedig manwl sy'n nodi'r dystiolaeth wyddonol a'r ymgysylltiad â rhanddeiliaid a lywiodd ein prosesau gwneud penderfyniadau; sut y gwnaethom gydymffurfio â'n dyletswyddau cyfreithiol i ddiogelu a hyrwyddo hawliau pobl hŷn sy'n byw mewn cartrefi gofal a sut rydym yn ymgorffori'r gwersi a ddysgwyd mewn ymarfer yn y dyfodol. Yn ogystal, mae'r Dirprwy Weinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn parhau i gyfarfod bob wythnos â'r Comisiynydd Pobl Hŷn, ac mae'r Comisiynydd a'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol wedi cyfarfod â'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ac uwch swyddogion ar adegau gwahanol yn ystod y pandemig.

Rydym yn parhau i ymrwymo i'r ddeialog agored hon er mwyn sicrhau bod hawliau pob person hŷn yng Nghymru yn cael eu cynnal a'u diogelu, gan gynnwys trwy'r gwaith rydym yn ei wneud ar ein Strategaeth ar gyfer Cymdeithas sy'n Heneiddio.

**Goblygiadau ariannol:** Mae modd defnyddio cyllidebau sy'n bodoli eisoes i ariannu'r gwaith hwn.

**Argymhelliad 9. Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda Grŵp Cynghori'r Gweinidog a sefydliadau gofalwyr i ddatblygu ffyrdd mwy creadigol o ddarparu seibiant ac egwyl fer. Dylai hyn gynnwys dysgu o arfer gorau mewn mannau eraill.**

Ymateb Llywodraeth Cymru:

**Derbyn**

Hoffem ddiolch i'r Pwyllgor am amlygu'r mater pwysig hwn. Yn ystod y pandemig, cynhaliodd swyddogion gyfarfodydd wythnosol gyda sefydliadau gofalwyr er mwyn deall sut roedd gofalwyr yn ymdopi heb gefnogaeth eu rhwydweithiau arferol. Hefyd, mynychodd y Prif Weinidog a'r Dirprwy Weinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol gyfarfodydd rhithwir gyda gofalwyr di-dâl. Dangosodd yr ymgysylltiad hwn, ynghyd ag ymatebion i'r ymgynghoriad cyhoeddus ar y Strategaeth ar gyfer Gofalwyr Di-dâl a chyngor gan ein Grŵp Cynghori'r Gweinidog, fod angen dybryd arallgyfeirio a gwella mynediad at wasanaethau seibiant yng Nghymru.

Ym mis Mawrth 2021, comisiynodd Llywodraeth Cymru Ymddiriedolaeth Gofalwyr Cymru i weithio gydag academyddion o Brifysgol Abertawe a Phrifysgol Bangor i lunio adroddiad yn cyflwyno map trywydd ar gyfer dyfodol gwasanaethau seibiant a seibiannau byr ar gyfer gofalwyr di-dâl yng Nghymru. Bydd yr adroddiad yn cael ei gwblhau erbyn mis Gorffennaf 2021 a bydd yn nodi modelau lleol a rhanbarthol enghreifftiol o wasanaethau seibiant sydd â'r potensial i gael eu cyflwyno'n gyflym ar raddfa fwy.

Lansiodd y Dirprwy Weinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ein Strategaeth newydd ar gyfer Gofalwyr Di-dâl ar 23 Mawrth. Ar hyn o bryd rydym yn gweithio gyda Grŵp Cynghori'r Gweinidog ar Ofalwyr Di-dâl i gyd-lunio cynllun cyflawni ategol a fydd yn egluro sut rydym yn bwriadu bwrw ymlaen â phob un o'r pedair blaenoriaeth genedlaethol newydd ar gyfer gofalwyr di-dâl, gan gynnwys blaenoriaeth 3:

> *Helpu i fyw yn ogystal â gofalu – mae'n rhaid rhoi cyfle i bob gofalwr di-dâl gymryd seibiant o'i rôl ofalu i'w alluogi i ofalu am ei iechyd a'i lesiant ei hun a'i alluogi i fyw yn ogystal â gofalu.*

**Goblygiadau ariannol**: Dim - Mae modd defnyddio cyllidebau sy'n bodoli eisoes i ariannu'r rhaglen waith hon.

**Argymhelliad 10. Rhaid i Lywodraeth Cymru sicrhau cyllid cynaliadwy ar gyfer gwasanaethau gofalwyr ifanc a blaenoriaethu ailagor cefnogaeth wyneb yn wyneb yn ddiogel i ofalwyr ifanc a gofalwyr sy'n oedolion ifanc.**

Ymateb Llywodraeth Cymru:

**Derbyn mewn egwyddor**

Awdurdodau lleol sy'n gyfrifol am ddarparu gwasanaethau gofalwyr ifanc, ac mae ganddynt gyfrifoldeb statudol am reoli eu materion ariannol. Mae hyn yn adlewyrchu'r ffaith mai awdurdodau lleol sydd yn y sefyllfa orau i ddeall anghenion lleol eu

cymunedau ac ariannu a chomisiynu gwasanaethau’n unol â hynny. Hefyd, mae gan awdurdodau lleol hyblygrwydd i wneud penderfyniadau ar sail eu hasesiad o anghenion eu poblogaethau lleol a digonolrwydd y gwasanaethau sydd ar gael.

I gefnogi hyn, mae Llywodraeth Cymru wedi parhau i osod iechyd a gofal cymdeithasol ar frig ei blaenoriaethau ar gyfer cyllideb 2021-22. Yn 2021-22, bydd awdurdodau lleol yn derbyn cyfanswm o £4.65 biliwn gan Lywodraeth Cymru ar ffurf Grant Cynnal Refeniw craidd ac ardrethi annomestig, i'w wario ar ddarparu gwasanaethau allweddol. Mae hyn yn cyfateb i gynnydd o 3.8% neu £172 miliwn ar sail gyfatebol. Mae'r Grant Cymorth Refeniw yn cynnwys cyllid ar gyfer gwasanaethau gofalwyr, waeth a ydynt yn cael eu darparu'n uniongyrchol gan awdurdodau lleol neu drwy system comisiynu darparwyr trydydd sector neu sector preifat.

Lansiwyd ein Strategaeth newydd ar gyfer Gofalwyr Di-dâl ar 23 Mawrth 2021. Mae'r strategaeth hon yn ailddatgan ein hymrwymiad i wella'r broses o gydnabod a chefnogi gofalwyr di-dâl, gan gynnwys gofalwyr ifanc a gofalwyr sy'n oedolion ifanc. Byddwn yn gweithio gyda Grŵp Cynghori'r Gweinidog ar Ofalwyr, awdurdodau lleol, y trydydd sector a gofalwyr di-dâl i ddatblygu cynllun cyflawni ategol a gyhoeddir yn ddiweddarach eleni.

Mae penderfyniadau yn ymwneud ag ailddechrau cymorth wyneb yn wyneb ar gyfer gofalwyr ifanc a gofalwyr sy'n oedolion ifanc yn cael eu gwneud gan awdurdodau lleol a darparwyr gwasanaethau, ar ôl ystyried canllawiau Llywodraeth Cymru. Roedd yn dda gweld bod cynifer o wasanaethau wedi ymateb yn gyflym i'r pandemig ac wedi parhau i ddarparu cymorth a chefnogaeth amrywiol i ofalwyr di-dâl a'r rhai y maent yn gofalu amdanynt. Rydym yn sylweddoli bod cau gwasanaethau wyneb yn wyneb a chyfyngiadau iechyd y cyhoedd wedi'i gwneud yn anodd i ofalwyr ifanc gael mynediad at grwpiau cefnogaeth gan gymheiriaid neu gymryd gwyliau.

Yn ystod yr wythnosau nesaf, rydym yn disgwyl i ddarpariaeth yn y gymuned a mathau eraill o ddarpariaeth wyneb yn wyneb, megis gwasanaethau gofalwyr ifanc, ailagor cyn gynted ag y bydd yn ddiogel gwneud hynny. Hefyd, dylai mwy o bobl allu dechrau cymryd seibiant neu gynllunio seibiant wrth i ni ddechrau llacio'r cyfyngiadau. Roedd llety gwyliau hunangynhwysol yng Nghymru wedi ailagor ddiwedd mis Mawrth, a'r cyfyngiadau teithio yng Nghymru wedi'u llacio. Hefyd, rydym yn parhau i adolygu ein holl ganllawiau coronafeirws yn rheolaidd, gan gynnwys canllawiau ar gyfer canolfannau cymunedol a swyddfeydd.

I lawer o ofalwyr ifanc, mae'r ysgol a'r coleg yn allweddol bwysig i'w helpu i gysylltu â ffrindiau a chael cymorth emosiynol a chefnogaeth gan gymheiriaid, yn ogystal â seibiant o gyfrifoldebau gofalu gartref. Wrth i fwy o ddisgyblion ddychwelyd i'r ysgol a mwy o ddysgwyr ddychwelyd i'r coleg, bydd yn helpu llawer o ofalwyr ifanc i ailsefydlu cyswllt, a sicrhau eu bod yn cael cefnogaeth gan ffrindiau, athrawon, gwasanaethau cwnsela ysgolion a chymorth arall fel sy'n briodol. Fel sydd wedi digwydd gydol y pandemig, mae plant gweithwyr allweddol a dysgwyr sy'n agored i niwed, gan gynnwys gofalwyr ifanc, wedi gallu derbyn dysgu wyneb yn wyneb ar safle'r ysgol, ac mae ysgolion arbennig ac Unedau Cyfeirio Disgyblion wedi aros ar agor lle bynnag y bo modd.
**Goblygiadau ariannol:** Dim.

**Argymhelliad 11. Dylai Llywodraeth Cymru ailystyried ei hymateb i Argymhelliad 26 yn ein hadroddiad ar effaith Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 mewn perthynas â gofalwyr - a oedd yn galw ar Lywodraeth Cymru i ddarparu cyllid hirdymor, cynaliadwy a symlach i sefydliadau'r trydydd sector sy'n darparu gwasanaethau hanfodol i ofalwyr - gyda'r bwriad o'i weithredu fel mater o frys.**

Ymateb Llywodraeth Cymru:

**Derbyn mewn egwyddor**

Rydym yn sylweddoli bod cynllunio a darparu cymorth i ofalwyr di-dâl yn gallu bod yn heriol wrth gomisiynu gwasanaethau ar sail flynyddol. Fodd bynnag, mae'r bwriad i gynnal adolygiad cynhwysfawr a mwy hirdymor o wariant wedi'i ohirio oherwydd y pandemig. Mae gan Lywodraeth Cymru broses gyllideb flynyddol, felly mae'n rhaid gwneud llawer o benderfyniadau gwariant o flwyddyn i flwyddyn.

Fel yr amlinellwyd yn ein hymateb uchod, yn 2021-22 bydd awdurdodau lleol yn derbyn cyfanswm o £4.65 biliwn gan Lywodraeth Cymru ar ffurf cyllid craidd y Grant Cynnal Refeniw ac ardrethi annomestig, i'w wario ar ddarparu gwasanaethau allweddol. Mae hyn yn cyfateb i gynnydd o 3.8% neu £172 miliwn ar sail gyfatebol.

Rydym yn gwerthfawrogi'r cymorth sydd wedi'i ddarparu gan sefydliadau'r trydydd sector ar gyfer gofalwyr di-dâl, yn enwedig eu gwaith dros y flwyddyn ddiwethaf i addasu'r ddarpariaeth bresennol a gweithredu'n gyflym. Fodd bynnag, mae cyllid Llywodraeth Cymru ar gyfer y trydydd sector yn canolbwyntio ar ddarparu ychwanegedd i wasanaethau statudol - awdurdodau lleol sy'n gyfrifol am ddarparu gwasanaethau hanfodol i ofalwyr di-dâl.

Trwy ein cynllun grant tair blynedd Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy'r Trydydd Sector (2020-23), rydym yn parhau i ariannu casgliad amrywiol o sefydliadau, gan gynnwys sefydliadau gofalwyr, i ddarparu gweithgarwch sy'n helpu i weithredu ac ymgorffori egwyddorion allweddol Deddf 2014. Dechreuodd pedwar prosiect ar gyfer gofalwyr yn benodol ar 1 Ebrill 2020, a byddant yn derbyn cyllid gwerth £2.6 miliwn dros dair blynedd y cynllun. Hefyd, fe wnaethom ddarparu gwerth £1 filiwn o gyllid yn 2020-21 ar gyfer byrddau iechyd lleol a'u partneriaethau gofalwyr, sy'n cynnwys nifer o bartneriaid trydydd sector. Mae'r cyllid hwn ar gael eto yn 2021-22.

Mae'r Gronfa Gofal Integredig yn ffynhonnell gymorth arall, gan gynnwys gan y trydydd sector, ar gyfer gofalwyr di-dâl, sy'n parhau i gael eu nodi fel un o'r grwpiau blaenoriaeth yn y canllawiau ar gyfer Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol. Yn 2020-21 fe wnaethom fuddsoddi £89 miliwn o gyllid refeniw yn y Gronfa Gofal Integredig. Byddwn yn buddsoddi £89 miliwn arall o gyllid refeniw yn 2021-22 er mwyn cydnabod manteision cadarnhaol y Gronfa a datblygu'r llwyddiant a gafwyd hyd yn hyn. Bydd ymestyn y Gronfa Gofal Integredig am flwyddyn arall tan fis Mawrth 2022 yn golygu bod llawer o bobl sy'n agored i niwed ledled Cymru, gan gynnwys gofalwyr di-dâl a gofalwyr ifanc, yn parhau i gael budd o'r gronfa bwysig hon. Yn ddiweddar, cyhoeddwyd yr adroddiad blynyddol ar y Gronfa Gofal Integredig ar gyfer 2019-20: https://llyw.cymru/adroddiad-blynyddol-cronfa-gofal-integredig-2019-i-2020.

Yn ôl yr adroddiad, yn 2019-20 roedd y byrddau partneriaeth rhanbarthol wedi nodi bod 16% o'u cyllid o'r Gronfa Gofal Integredig yn cael ei fuddsoddi yn y sector gwerth cymdeithasol, a'u bod yn gobeithio buddsoddi o leiaf 20% erbyn diwedd mis Mawrth 2021.

Rydym yn cydnabod bod y trydydd sector yng Nghymru wedi gwneud cyfraniad allweddol at yr ymateb i'r pandemig Covid-19, ac y bydd ganddo rôl yr un mor werthfawr yn ein hadferiad teg, cyfiawn a gwyrdd. Ar hyn o bryd, nid ydym yn gwybod eto pa heriau a ddaw yn sgil adferiad, na lefel y cymorth ychwanegol a all fod ei angen. I gydnabod hyn, rydym wedi dyrannu £2.5 miliwn yn y lle cyntaf i sefydlu Cronfa Gwydnwch y Trydydd Sector ar gyfer 2021-22.

Mae ein seilwaith trydydd sector wedi bod yn allweddol i alluogi'r ymateb i Covid dan arweiniad gwirfoddolwyr. Trwy sicrhau bod y seilwaith wedi'i sefydlu, roedd modd ymateb yn gyflym ac mewn ffordd gydgysylltiedig. Mae aelodau Cefnogi Trydydd Sector Cymru wedi gweithio gyda sefydliadau'r sector gwirfoddol, Llywodraeth Cymru, awdurdodau lleol, byrddau iechyd ac eraill i helpu i sicrhau bod pobl sy'n agored i niwed yn cael cymorth. Er mwyn cydnabod hyn, rydym wedi darparu cynnydd o 10% (£450,000) yn y cyllid craidd ar gyfer Cefnogi Trydydd Sector Cymru yn 2021-22. Dyma'r cynnydd cyntaf mewn cyllid mewn termau real ar gyfer y sector ers dros ddegawd. Rydym yn gobeithio y bydd y cynnydd hwn yn parhau yn nhymor nesaf y Senedd.

**Goblygiadau ariannol**: Dim. Bydd y broses o asesu goblygiadau ariannu posibl yn y dyfodol mewn perthynas â newidiadau ym mholisi’r llywodraeth a allai effeithio ar gyllidebau’r llywodraeth a chyrff statudol neu sefydliadau eraill yn cael ei hystyried fel rhan o’r gwaith parhaus o ddatblygu polisi gofalwyr gennym ni ar y cyd â rhanddeiliaid.

**Argymhelliad 12. Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod ei hymgyrchoedd cyfathrebu ac ymwybyddiaeth y cyhoedd mewn perthynas â rhaglen frechu COVID-19 yn cynnwys targedu gwybodaeth yn effeithiol ar gyfer gofalwyr di-dâl, a sicrhau eu bod yn ymwybodol eu bod yn gymwys i gael brechlyn.**

Ymateb Llywodraeth Cymru:

**Derbyn**

Mae strategaeth gyfathrebu ac ymgysylltu fanwl ar waith i annog pobl i gael y brechiad os ydynt yn gymwys, a byddwn yn parhau i weithio'n agos gyda rhanddeiliaid i ddeall anghenion cynulleidfaoedd a sut i'w cyrraedd. Rydym yn cydnabod bod angen sicrhau bod cynifer o ofalwyr di-dâl â phosibl yn gwybod eu bod yn gymwys i gael brechiad fel rhan o grŵp blaenoriaeth 6. Mae dulliau cyfathrebu cenedlaethol yn bwysig, yn ogystal â dulliau cyfathrebu sydd wedi'u targedu trwy randdeiliaid.

Ers 8 Mawrth, mae gofalwyr di-dâl nad oeddent wedi cofrestru eisoes fel gofalwyr di-dâl gyda'u meddyg teulu wedi gallu cwblhau ffurflen hunangyfeirio ar-lein a gynhelir gan bob bwrdd iechyd lleol: https://llyw.cymru/cael-brechlyn-covid-19-fel-gofalwr-di-dal. Rydym wedi gweithio'n agos gyda Gofalwyr Cymru, Ymddiriedolaeth Gofalwyr

Cymru a Fforwm Rhieni a Gofalwyr Cymru Gyfan i ddatblygu canllawiau ar frechlyn Covid-19 ar gyfer gofalwyr di-dâl cymwys fel rhan o grŵp blaenoriaeth 6: https://llyw.cymru/brechiad-covid-19-ar-gyfer-gofalwyr-di-dal-html.

Fe aethom ati i gynnal sesiwn holi ac ateb ar gyfer sefydliadau gofalwyr y trydydd sector ac arweinwyr gofalwyr di-dâl ym maes iechyd a llywodraeth leol er mwyn egluro cymhwysedd gofalwyr di-dâl a'r ffurflen hunangyfeirio. Mae'r rhai a fynychodd y sesiwn Holi ac Ateb yn unigolion cyswllt allweddol ar gyfer gofalwyr di-dâl sydd â chwestiynau am eu cymhwysedd a sut i gael apwyntiad.

Cyhoeddwyd hysbysiad i'r wasg gennym yn ymwneud â'r ffurflen hunangyfeirio, gan arwain at sylw yn y cyfryngau: https://llyw.cymru/lansio-ffurflen-hunanatgyfeirio-ar-lein-i-ofalwyr-gael-y-brechlyn-rhag-covid-19. Mae byrddau iechyd wedi cyhoeddi gwybodaeth am gymhwysedd gofalwyr di-dâl ar eu gwefannau ochr yn ochr â'r ffurflen hunangyfeirio. Mae nifer o sefydliadau'r trydydd sector wedi cyhoeddi canllawiau defnyddiol yn egluro cymhwysedd a phroses y ffurflen hunangyfeirio. Hefyd, maent wedi hyrwyddo cymhwysedd gofalwyr di-dâl ar gyfer y brechlyn Covid-19 trwy eu sianeli cyfryngau cymdeithasol.

**Goblygiadau ariannol:** Dim. Mae modd defnyddio cyllidebau sy'n bodoli eisoes i ariannu'r gweithgarwch hwn.

**Argymhelliad 13. Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda'i phartneriaid i ddatblygu a gweithredu ymgyrch codi ymwybyddiaeth i wella gwybodaeth pobl am y gefnogaeth sydd ar gael i ofalwyr, yn enwedig o ran cymorth ariannol. Dylai hyn gynnwys sicrhau bod gan bobl sydd wedi'u nodi fel gofalwyr di-dâl yn ystod y rhaglen frechu yn erbyn COVID-19 fynediad at wybodaeth am eu hawliau a'r cymorth y mae ganddynt hawl iddo.**

Ymateb Llywodraeth Cymru:

**Derbyn**

Mae Llywodraeth Cymru wedi dyrannu £100,000 i Ofalwyr Cymru ac Ymddiriedolaeth Gofalwyr Cymru i ddatblygu a chyflwyno ymgyrch codi ymwybyddiaeth er mwyn gwella gwybodaeth am y cymorth sydd ar gael i ofalwyr di-dâl a'u hawliau o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru). Bydd yr ymgyrch yn cael ei chyflwyno yn 2021 ac rydym yn gweithio gyda'r ddau sefydliad i gytuno ar nodau'r ymgyrch a'i chanlyniadau dymunol ar gyfer gofalwyr di-dâl.

Rydym yn ymwybodol o'r pwysau ariannol sy'n wynebu llawer o ofalwyr di-dâl ac rydym yn gwybod bod sicrhau cydbwysedd rhwng cyflogaeth a chyfrifoldebau gofal yn gallu bod yn anodd. Mae'r newidiadau i'r system Budd-daliadau Lles a Nawdd Cymdeithasol wedi creu problemau yma yng Nghymru ac mae Gweinidogion Cymru yn parhau i gyflwyno sylwadau am y newidiadau hyn a rhoi polisïau ar waith i ddiogelu'r rhai sy'n wynebu'r risg fwyaf yn ein cymunedau.

O ganlyniad i'r sefyllfa ddigynsail bresennol, bydd angen cymorth ariannol ychwanegol ar lawer mwy o bobl ledled Cymru i'w helpu trwy'r argyfwng presennol a thu hwnt. Mae'n bwysicach nag erioed bod pawb sy'n gymwys am gymorth yn ymwybodol o'r casgliad llawn o hawliau sydd ar gael, a'u bod yn manteisio arnynt, gan gynnwys budd-daliadau a gwasanaethau a ariennir gan Lywodraeth Cymru a'r rhai sy'n cael eu

darparu gan awdurdodau lleol yng Nghymru. Dyna pam rydym yn gweithio i gynyddu ymwybyddiaeth o fudd-daliadau sydd wedi'u datganoli / budd-daliadau nad ydynt wedi'u datganoli, gan gynyddu nifer y bobl sy'n eu hawlio. Rhwng mis Ionawr 2020 a mis Medi 2020, llwyddodd y gwasanaethau cyngor ar fudd-daliadau sy'n cael eu darparu trwy Gronfa Gynghori Sengl Llywodraeth Cymru i helpu aelwydydd i hawlio dros £20 miliwn o incwm budd-dal lles ychwanegol.

Mewn ymateb i argymhellion y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau ar gyfer 'Budd-daliadau yng Nghymru: Opsiynau i'w Cyflawni'n Well', cytunodd Llywodraeth Cymru fod angen gwneud mwy i wella'r nifer sy'n manteisio ar fudd-daliadau lles sydd wedi'u datganoli a budd-daliadau lles nad ydynt wedi'u datganoli, ac y dylid mynd i'r afael â hyn trwy ddulliau traws-lywodraethol a thrwy gydweithio ag awdurdodau lleol a phartneriaid allweddol eraill.

Ers hynny, mae Gweithgor Ehangach Gwneud y Gorau o Incwm a Manteisio ar Fudd-daliadau wedi'i sefydlu gyda'r nod o hyrwyddo a chefnogi cynnydd parhaus yn y nifer sy'n hawlio budd-daliadau lles sydd wedi'u datganoli, budd-daliadau lles nad ydynt wedi'u datganoli a thaliadau lles. Fel rhan o'r Gweithgor hwn, rydym wrthi'n datblygu is-grwpiau i ganolbwyntio ar feysydd penodol. Hefyd, bydd hyn yn cynnwys nifer y bobl sy'n manteisio ar Lwfans Gofalwyr yng Nghymru.

Cynhaliodd Llywodraeth Cymru *Ymgyrch Genedlaethol i Sicrhau bod Pobl yn Hawlio Budd-daliadau* rhwng 1 Mawrth a 25 Mawrth er mwyn annog pobl i wirio a hawlio'r budd-daliadau y mae ganddynt hawl iddynt. Roedd yr ymgyrch yn targedu teuluoedd incwm isel ledled Cymru yn ogystal â chynulleidfa ehangach o bobl y mae angen cymorth arnynt ar hyn o bryd oherwydd effeithiau ariannol y pandemig.

Yn ogystal â'r Ymgyrch Genedlaethol rydym yn bwrw ymlaen â'r canlynol hefyd:

- *Codi Ymwybyddiaeth Gweithwyr Rheng Flaen* – mae sesiynau codi ymwybyddiaeth di-dâl yn cael eu darparu ar gyfer gweithwyr rheng flaen er mwyn cynyddu eu dealltwriaeth o fudd-daliadau lles a'u gallu i annog pobl y maent yn eu cefnogi i hawlio'r budd-daliadau lles sy'n ddyledus iddynt.
- *Cyngor a Chymorth wedi'u Targedu ar gyfer Budd-daliadau Lles* – mae prosiectau profi a dysgu'n archwilio'r ffordd orau o ymgysylltu â grwpiau sy'n methu'n gyson â manteisio ar y system budd-daliadau lles. Mae un o'r prosiectau hyn ar gyfer pobl hŷn a gofalwyr.

Ers 8 Mawrth, mae gofalwyr di-dâl nad ydynt wedi cofrestru eisoes fel gofalwyr di-dâl gyda'u meddyg teulu wedi gallu cwblhau ffurflen hunangyfeirio ar-lein, gyda'r opsiwn o gwblhau'r ffurflen dros y ffôn. Wrth gyflwyno'r ffurflen hunangyfeirio, gofynnir i ofalwyr di-dâl a ydynt yn fodlon i'w bwrdd iechyd lleol rannu eu manylion gyda'u meddyg teulu. Y bwriad yw sicrhau bod gan feddygon teulu fanylion gofalwyr di-dâl sydd am i'w rôl fel gofalwr fod yn hysbys, fel bod y meddyg teulu'n gallu darparu cymorth yn ôl y gofyn.

Mae'r ffurflen hunangyfeirio wedi'i chynllunio ar gyfer y diben penodol o gofrestru gofalwyr di-dâl cymwys ar gyfer y brechlyn Covid-19 o dan Grŵp Blaenoriaeth 6. Mae'r ffurflenni a'r data sy'n cael eu cyflwyno gan ofalwyr di-dâl yn cael eu cadw gan

bob bwrdd iechyd lleol, yn hytrach na Llywodraeth Cymru. Mae'n bwysig nodi nad yw gofalwyr di-dâl wedi cytuno'n benodol bod eu data'n cael ei ddefnyddio at ddibenion ymgyrch codi ymwybyddiaeth. Oherwydd rheolau diogelu data GDPR y DU, nid yw'r ffurflen hunangyfeirio'n ddull addas o gasglu gwybodaeth am ofalwyr di-dâl ar gyfer ymgyrch codi ymwybyddiaeth wedi'i thargedu o'r fath.

Fodd bynnag, mae gennym gamau ar y gweill i sicrhau bod mwy o ofalwyr yn gwybod eu hawliau. Ers 2018-19, rydym wedi darparu cyllid blynyddol gwerth £1 filiwn ar gyfer byrddau iechyd lleol a'u partneriaethau gofal er mwyn darparu cymorth amrywiol i ofalwyr di-dâl o bob oed. Mae hyn yn cynnwys cefnogi gofalwyr mewn practis cyffredinol. Rhwng 2018 a 2020, canolbwyntiwyd ar roi cynlluniau ar waith sy'n cefnogi gweithwyr iechyd proffesiynol ym maes gofal sylfaenol a gofal cymunedol i ddatblygu eu hymwybyddiaeth o ofalwyr a'u dealltwriaeth o sut i adnabod gofalwyr, y problemau sy'n wynebu gofalwyr a dulliau gweithio i gefnogi gofalwyr yn well. Gwnaed y meini prawf cymhwysedd yn fwy hyblyg ar gyfer 2020-21, ond mae gweithgarwch cymwys yn parhau i gynnwys gwaith gyda meddygon teulu yn 2021-22.

Yn ogystal, mae Ymddiriedolaeth Gofalwyr Cymru a Gofalwyr Cymru yn gweithio mewn partneriaeth ar hyn o bryd i drawsnewid cydnabyddiaeth, parch a chefnogaeth ar gyfer gofalwyr mewn lleoliadau iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru. Ariennir y prosiect "Ymwybyddiaeth o Ofalwyr" tair blynedd trwy'r Grant Trydydd Sector Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy, a'i nod yw cryfhau a gwella'r broses o gyflwyno Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 trwy godi ymwybyddiaeth y cyhoedd a gweithwyr proffesiynol perthnasol o ofalwyr di-dâl ac effaith gofalu. Byddwn yn ysgrifennu at bob partner sy'n derbyn y cyllid a amlinellir uchod i ofyn iddynt weithio'n agos gyda meddygon teulu er mwyn darparu gwasanaeth cymorth gwell, neu gyfeirio unrhyw ofalwyr di-dâl sydd newydd eu nodi drwy'r ffurflen hunangyfeirio brechiad at wybodaeth, cyngor a chymorth priodol.

**Goblygiadau ariannol:** Dim. Mae modd defnyddio cyllidebau sy'n bodoli eisoes i ariannu'r gweithgarwch hwn.

**Argymhelliad 14. Dylai Llywodraeth Cymru gynnal asesiadau o'r effaith ar gydraddoldeb ar gyfer penderfyniadau a wnaed yn ystod pandemig COVID-19 mewn perthynas â chymorth/cyllid i ofalwyr di-dâl er mwyn sicrhau nad oes unrhyw effaith anghymesur ar grwpiau na chymunedau yn y tymor byr neu'r tymor hwy.**

Ymateb Llywodraeth Cymru:

**Derbyn**

Gydol y pandemig, mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn ymwybodol o'r gofyniad i gydymffurfio â'i dyletswyddau statudol, gan gynnwys Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus, yn ogystal â'r angen i sicrhau bod penderfyniadau sy'n cael eu gwneud yn gydnaws â hawliau'r Confensiwn.

Rydym wedi cwblhau asesiad cynhwysfawr o'r effaith ar gydraddoldeb yn ymwneud â'r Strategaeth ar gyfer Gofalwyr Di-dâl a ddrafftiwyd yn ystod y pandemig trwy

ymgysylltu â rhanddeiliaid a chynnal ymgynghoriad cyhoeddus. Mae crynodeb o'r effaith ar gydraddoldeb wedi'i gyhoeddi a bydd yn llywio'r gwaith o ddatblygu cynllun cyflawni a gwneud penderfyniadau polisi parhaus yn ymwneud â gofalwyr di-dâl: https://llyw.cymru/strategaeth-ar-gyfer-gofalwyr-di-dal-asesiad-or-effaith-ar-gydraddoldeb

Mae'r holl asesiadau o'r effaith ar gydraddoldeb wedi'u cwblhau ar gyfer y penderfyniadau canlynol sy'n ymwneud â Covid 19 a oedd yn effeithio ar ofalwyr di-dâl:

- Darparu cyfarpar diogelu personol am ddim i ofalwyr di-dâl sy'n bodloni meini prawf penodol.
- Dyrannu £1.25 miliwn i Ymddiriedolaeth Gofalwyr Cymru i weinyddu'r Gronfa Cymorth i Ofalwyr. Hefyd, bydd Ymddiriedolaeth Gofalwyr Cymru yn cyhoeddi gwerthusiad o'r gronfa hon yn ystod gwanwyn 2021.
- Dyrannu £60,000 o gyllid uniongyrchol i Ofalwyr Cymru yn 2020-21 i ymestyn cymorth seicolegol ar-lein i ofalwyr di-dâl. Bydd Gofalwyr Cymru yn darparu adroddiad diwedd prosiect i Lywodraeth Cymru yn y gwanwyn.

Defnyddiwyd yr asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb yn ymwneud â *Fframwaith Cynhwysiant Digidol Strategol* Llywodraeth Cymru i lywio dosbarthiad 440 o liniaduron i oedolion ifanc rhwng 16 a 18 oed sy'n ofalwyr, ac mae wedi'i gyhoeddi ar ein gwefan:
https://llyw.cymru/fframwaith-cynhwysiant-digidol-asesiad-effaith-cydraddoldeb

Cyflwynwyd y fenter hon gan Cymunedau Digidol Cymru fel rhan o raglen *Hyder Digidol, Iechyd a Llesiant* Llywodraeth Cymru. Dechreuodd y contract hwn ym mis Gorffennaf 2019 ac mae'n para tan fis Mehefin 2022, gydag opsiwn i'w ymestyn am dair blynedd arall. Mae gwerthusiad annibynnol wedi'i gomisiynu, ac mae adroddiad Cam 1 wedi'i gyhoeddi ym mis Chwefror 2021:
https://llyw.cymru/cymunedau-digidol-cymru-hyder-digidol-iechyd-llesiant-gwerthusiad-proses-theori-newid

Cynhelir dau gam arall o'r gwerthusiad a fydd yn helpu i ddatblygu cyngor i Weinidogion ar gyfer sbarduno'r opsiwn i ymestyn.

Mae cyfres o asesiadau o'r effaith ar gydraddoldeb a hawliau plant wedi'u cwblhau ar gyfer pob dysgwr a'u cyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cymru. Rydym yn derbyn yn llawn bod unrhyw newid i drefniadau addysg yn cael effaith amrywiol ac eang ar grwpiau gwahanol gan gynnwys dysgwyr, staff, teuluoedd, cymunedau a gofalwyr ifanc. Ers dechrau'r pandemig, mae gofalwyr ifanc wedi cael eu hadnabod fel dysgwyr sy'n agored i niwed, ac mae asesiadau o'r effaith ar gydraddoldeb yn cyfeirio atynt. Mae asesiadau sydd wedi'u cwblhau hyd yma yn cynnwys: *Asesu effaith y penderfyniadau polisi cychwynnol a wnaed mewn perthynas â darparu addysg mewn ymateb i Covid-19*
https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2020-09/asesiad-effaith-integredig-covid-19-darparu-gofal-plant-ac-addysg_0.pdf

Hefyd, cwblhawyd asesiadau o gau ysgolion cychwynnol; cynyddu gweithrediadau ym mis Gorffennaf 2020; dysgwyr yn dychwelyd i leoliadau addysg ym mis Medi

2020 a chyfyngiadau symud "cyfnod atal byr" yr hydref. Yn fwy diweddar, mae asesiadau wedi'u cwblhau i ystyried sut, ar ôl 12 Ebrill 2021, y mae gweddill y dysgwyr oedran uwchradd yn gallu dychwelyd ar gyfer addysgu a dysgu ar y safle. Mae hyn yn cwblhau'r broses o bob dysgwr yn dychwelyd i ddarpariaeth ar y safle. Hefyd, cwblhawyd asesiad o'r effaith ar lefelau rhybudd a chyfyngiadau COVID-19 a'u heffeithiau ar hawliau plant. Cafodd yr asesiad hwn ei ddiweddaru a'i gyhoeddi'n ddiweddar ar 19 Chwefror 2021:
https://llyw.cymru/lefelau-rhybudd-chyfyngiadau-yng-nghymru-hawliau-plant-html

Dilynodd Llywodraeth Cymru gyngor y Cydbwyllgor ar Imiwneiddio a Brechu (JCVI) a ddywedodd fod angen cynnwys gofalwyr di-dâl yng ngharfan chwech o'r rhaglen frechu Covid 19.

Ar sail argymhellion y JCVI, cytunodd pedair gwlad y DU i gyflwyno rhaglen sy'n seiliedig ar oedran yn bennaf ar gyfer y brechlyn. Mae'r dull hwn yn helpu i sicrhau bod pobl sy'n wynebu'r risg fwyaf yn cael eu diogelu cyn gynted â phosibl. Mae rhagor o wybodaeth am sut y daeth y JCVI i'w gasgliadau, a gwybodaeth am grwpiau sydd mewn perygl (gan gynnwys y rhai sydd wedi bod yn gwarchod a/neu sydd â chyflyrau iechyd isorweddol) ar gael yn:
https://www.gov.uk/government/publications/priority-groups-for-coronavirus-covid-19-vaccination-advice-from-the-jcvi-30-december-2020

Mae Atodiad A i'r papur yn rhoi dadansoddiad y JCVI o 'COVID-19 vaccine and health inequalities: *considerations for prioritisation and implementation'.*
https://www.gov.uk/government/publications/priority-groups-for-coronavirus-covid-19-vaccination-advice-from-the-jcvi-30-december-2020/annex-a-covid-19-vaccine-and-health-inequalities-considerations-for-prioritisation-and-implementation

Dylid nodi bod y dogfennau hyn yn cael eu hadolygu'n rheolaidd a bod y JCVI wedi diweddaru'r ddwy dudalen we ar 6 Ionawr 2021. Gellir gweld fersiynau blaenorol trwy ddewis y ddolen ar y dudalen o dan y pennawd "gweler yr holl ddiweddariadau".

**Goblygiadau ariannol:** Dim.

**Argymhelliad 15. Dylai Llywodraeth Cymru roi datganiad yn gynnar yn y Chweched Senedd ar ei chynigion i gryfhau'r trefniadau ar gyfer y sector gofal cymdeithasol a chanlyniad yr ymgynghoriad ar ei Phapur Gwyn: Ailgydbwyso gofal a chymorth, a sut y bydd yn ystyried yr argymhellion perthnasol a wnaed gan Bwyllgor Iechyd y Senedd hon a'r rhai blaenorol.**

Ymateb Llywodraeth Cymru:

**Derbyn mewn egwyddor**

Mater i Lywodraeth nesaf Cymru fydd penderfynu sut i ymgysylltu â Phwyllgorau Iechyd y Senedd ar y mater hwn. Mae swyddogion wrthi'n crynhoi'r ymatebion i'r ymgynghoriad i'r Papur Gwyn: Ailgydbwyso gofal a chymorth. Cyhoeddir y crynodeb hwn ar wefan Llywodraeth Cymru o fewn 12 wythnos i ddyddiad cau'r ymgynghoriad. Bydd yn bwysig i'r Llywodraeth newydd ystyried yr ymatebion i'r ymgynghoriad a'r holl dystiolaeth arall sydd ar gael, gan gynnwys argymhellion gan y Pwyllgor Iechyd

hwn a Phwyllgorau Iechyd blaenorol y Senedd, i wneud datganiad clir ar gynigion i gryfhau'r trefniadau ar gyfer y sector gofal cymdeithasol yn gynnar yn y Chweched Senedd.

**Goblygiadau Ariannol**
Dim. Bydd unrhyw gostau ychwanegol yn dod o gyllidebau rhaglenni presennol.